Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Swyddog Grantiau a Mynediad

## Disgrifiad o'r Rôl

| | |
|---|---|
| Gradd: | C |
| Cyfeirnod: | GIO |
| Tîm: | Y Celfyddydau |
| Yn adrodd i'r: | Rheolwr Rhaglenni Cyllid y Loteri |
| Yn rheoli: | Dim cyfrifoldebau rheoli llinell |
| Lleoliad: | Hyblyg – cewch weithio o unrhyw un o swyddfeydd Cyngor Celfyddydau Cymru |
| Teithio: | Cyson |

### Cyngor Celfyddydau Cymru

Elusen annibynnol a sefydlwyd trwy Siarter Frenhinol ym 1994 yw Cyngor Celfyddydau Cymru. Fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth Cymru sy'n penodi ei aelodau.

Llywodraeth Cymru sy'n darparu'r rhan fwyaf o'n cyllid. Rydyn ni'n dosbarthu arian y Loteri Genedlaethol hefyd, ac yn codi arian ychwanegol ar gyfer y celfyddydau o amrywiaeth o ffynonellau o'r sectorau cyhoeddus a phreifat hefyd lle bo modd.

Rydyn ni'n uchelgeisiol dros y celfyddydau yng Nghymru. Ein gweledigaeth yw creu Cymru greadigol lle mae'r celfyddydau wrth galon bywyd a lles y genedl, gan wneud ein gwlad yn lle cyffrous a bywiog i fyw, gweithio ac ymweld â hi. Mae llwyddiant ein gweledigaeth yn dibynnu ar ddychymyg a chreadigrwydd ein hartistiaid, ansawdd eu gwaith a'r ymdrechion i estyn allan ac ysbrydoli cynulleidfaoedd. Rydyn ni'n gweithio i greu amgylchedd lle gall artistiaid uchelgeisiol a mentrus dyfu a llewyrchu, a lle gall cynifer o bobl â phosibl fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau.

### Ein gwerthoedd

Fel corff cyhoeddus, mae disgwyl i ni gynnal y safonau uchaf o ran atebolrwydd a bod yn agored. Rydyn ni'n gwerthfawrogi creadigrwydd ac arloesi hefyd. Mae ein staff yn aml yn cydweithio mewn grwpiau a thimau i gyflawni ein rhaglenni gwaith. Rydyn ni'n rhoi pwyslais arbennig ar ddulliau hyblyg a chydweithredol o weithio, ac yn cynorthwyo ein staff i feithrin a datblygu'r sgiliau hyn.

## Am y rôl

Bydd y Swyddog Grantiau a Mynediad yn cynorthwyo gwaith ehangach y tîm Grantiau a Gwybodaeth, a'n gwaith i hwyluso mynediad yn benodol.

Y Swyddogion Grantiau a Gwybodaeth yw'r prif bwynt cyswllt ar gyfer unigolion a sefydliadau sydd am gael cymorth, cefnogaeth a chyllid gennym. Darparu cyngor a gwybodaeth yw un o'n gwasanaethau pwysicaf, ac mae ansawdd ein darpariaeth yn hyn o beth yn cael effaith allweddol ar ein henw da a'n hygrededd.

Gan ddefnyddio eu gwybodaeth arbenigol eu hunain a'u cydweithwyr ar draws y sefydliad, mae Swyddogion Grantiau a Gwybodaeth yn rheoli ymholiadau a cheisiadau am wybodaeth a chyngor, gan ymchwilio a llunio canllawiau ysgrifenedig pan fo angen.

Mae dyfarnu grantiau yn rhan greiddiol o'n gwaith, ac mae cyflawni hynny'n effeithiol wrth galon gwaith y tîm. Mae'r Swyddogion Grantiau a Gwybodaeth yn gyfrifol am asesu a monitro grantiau am brosiectau'r loteri ar draws Cymru. Gan gydweithio'n agos â'r Swyddogion Datblygu, maen nhw'n sicrhau bod gwasanaethau effeithlon a syml yn cael eu darparu ar gyfer unigolion a sefydliadau.

Mae Swyddogion Grantiau a Gwybodaeth yn gweithredu fel eiriolwyr ar ran Cyngor y Celfyddydau, ei waith a'r gweithgareddau y mae'n eu cefnogi, ac maen nhw'n helpu i hybu datblygiad perthnasau cadarnhaol a chydweithredol gydag artistiaid a sefydliadau'r celfyddydau.

Bydd y Swyddog Grantiau a Mynediad yn cynorthwyo'r tîm Grantiau a Gwybodaeth â'r gwaith craidd, ond y ffocws fydd datblygiadau newydd ynghylch cymorth hwyluso i ymgeiswyr. Ein nod yw gwneud ein gwasanaeth mor hygyrch â phosibl

Bydd y Swyddog Grantiau a Mynediad yn cynorthwyo ymgeiswyr sy'n wynebu rhwystrau i gyrchu ein gwasanaethau a'n gwybodaeth ar ffurf cymorth cyn ymgeisio.

## Prif gyfrifoldebau:

Mynediad - bod yn atebol am oruchwylio gweithrediadau pob dydd Hwyluso Mynediad Cyn-ymgeisio. Canolbwyntio ar ddatblygu cymorth mynediad ar draws y rhaglen gyllido yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys:

- Gweinyddu ceisiadau am gymorth mynediad, gan gynnwys codi archebion prynu ac anfonebu
- Trefnu galwadau cymorth mynediad ar gyfer ymgeiswyr
- Cynorthwyo ymgeiswyr â cheisiadau o ran mynediad
- Adrodd ar safonau gwasanaeth er mwyn gwella'r cynllun yn barhaus

Polisi – cyfrannu gwybodaeth a phrofiad at ddatblygu polisïau a strategaethau, yn arbennig yn y meysydd canlynol:

- gweithrediad ein prosesau rheoli grantiau
- gwybodaeth, cyngor ac amodau cyllid
- sut rydyn ni'n trefnu ac yn darparu ein gwasanaethau gwybodaeth
- asesu gweithgareddau sy'n cael eu hariannu gan y loteri.

Rheoli grantiau – cydweithio i drefnu, rheoli a gweinyddu ein proses rheoli grantiau, gan gynnwys:

- rheoli prosesau ymgeisio effeithlon
- cynllunio a threfnu cyfarfodydd dyfarnu grantiau.

Gwybodaeth arbenigol – darparu arweiniad a chymorth ar gyfer ein cynlluniau ymgeisio am arian y loteri, gan gynnwys cynghori ar:

- blaenoriaethau corfforaethol neu o ran celfyddydau penodol
- cymhwyster prosiectau a cheisiadau
- materion technegol sy'n gofyn am gynghori ymgeiswyr.

Cyflawni prosiectau – fel aelod o'r tîm, cyfrannu at gyflawni tasgau a phrosiectau ar draws meysydd dynodedig.  Mae'r rhain yn cynnwys adolygu a diwygio ein Canllawiau ar Arian y Loteri, symleiddio'r prosesau asesu, a datblygu gwell cymorth ar gyfer ymgeiswyr ag anghenion penodol.

Cyngor a gwybodaeth – cynnig gwybodaeth arbenigol ar raglenni grantiau loteri Cyngor y Celfyddydau i gydweithwyr, partneriaid, artistiaid a sefydliadau'r celfyddydau:

- ymateb i geisiadau am gymorth neu gyngor
- paratoi canllawiau ysgrifenedig, mae hyn yn cynnwys canllawiau cyhoeddedig a dogfennau ategol cysylltiedig ar gyfer ymgeiswyr
- gweithio gyda chydweithwyr i sicrhau bod y wybodaeth ar ein gwefan am gyllid Cyngor y Celfyddydau, a ffynonellau eraill o arian a chymorth, yn gyfredol
- sicrhau bod y wybodaeth sydd gan asiantaethau trydydd parti sy'n lledu gwybodaeth am gyllid Cyngor y Celfyddydau yn gyfredol ac yn gyfoes
- ymchwilio, datblygu a pharatoi gwybodaeth a deunyddiau briffio
- cyflawni gweithgareddau wyneb yn wyneb yn y gymuned ar draws Cymru, er enghraifft trwy:

    - hwyluso sesiynau cynghori ar grantiau
    - cymryd rhan mewn ffeiriau ariannu
    - mynychu digwyddiadau cenedlaethol blaenllaw
- gweithio gyda chydweithwyr i hybu a lledu gwybodaeth am fentrau strategol Cyngor y Celfyddydau.

Cyllid – sicrhau defnydd effeithiol o gronfeydd Cyngor y Celfyddydau trwy:

- gynghori ar geisiadau am arian a'u hasesu
- cymryd rhan mewn cyfarfodydd dyfarnu grantiau ar gyfer arian y loteri a phrosiectau corfforaethol eraill
- darparu adborth clir i ymgeiswyr a chydweithwyr
- monitro cynnydd prosiectau.

Eiriolaeth – hybu proffil Cyngor Celfyddydau Cymru a'r gweithgareddau y mae'n eu cynnal yn weithredol, ac yn arbennig yn y meysydd canlynol:

- gweithredu fel prif bwynt cyswllt ar gyfer unigolion sy'n gofyn am arweiniad a chymorth mewn perthynas ag arian
- hybu cynlluniau ariannu a gweithgareddau Cyngor Celfyddydau Cymru.

Cydymffurfiaeth gorfforaethol – dilyn y polisïau hynny sy'n amddiffyn Cyngor y Celfyddydau a'i staff rhag datguddiad posibl i risgiau a digwyddiadau y mae angen eu cofnodi.  Mae'r rhain yn cynnwys Atal Twyll, y Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data, Safonau'r Gymraeg, Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Seibrddiogelwch/defnydd o TGCh. (Diffinnir cyfrifoldebau staff ym mholisïau perthnasol Cyngor Celfyddydau Cymru.)

Dyletswyddau ychwanegol – unrhyw ddyletswyddau rhesymol sy'n gyson â'r uchod.

## Gwybodaeth, profiad a nodweddion

Rydyn ni am ddenu pobl sydd â diddordeb yn y celfyddydau, ymrwymiad i egwyddorion gwasanaeth cyhoeddus agored ac atebol, a'r ddawn i weithio gydag amrywiaeth eang o gwsmeriaid i'n sefydliad.  Rydyn ni'n credu mewn gosod y safonau uchaf posibl ym mhob agwedd o'n gwaith.  Mae pob aelod o staff yn gennad i'r sefydliad ac rydyn ni'n disgwyl i bawb barchu a chynnal ein henw da.

Rydyn ni'n anelu at fod yn sefydliad arloesol a blaengar. Rydyn ni am i'n staff gydweithio â'i gilydd er mwyn sicrhau ein bod ni'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddefnyddiol.

Rydyn ni'n ei chymryd hi'n ganiataol y bydd ein staff yn hyfedr wrth reoli gweinyddiaeth pob dydd, ac y byddant wedi datblygu sgiliau trefnu da.  Felly mae diddordeb arbennig gennym mewn staff â'r gallu i weithio mewn ffordd ddychmygus a hyblyg i daclo'r sialensiau a fydd yn eu hwynebu - staff sydd â'r fenter a'r egni i lewyrchu mewn amgylchedd gwaith prysur, ac sy'n cael boddhad o gyflawni targedau uchelgeisiol ac ymestynnol.

Yn ogystal, mae'r rôl yma'n gofyn am y wybodaeth, y profiad a'r nodweddion penodol canlynol. Caiff yr ymgeiswyr eu hasesu yn erbyn y meini prawf hanfodol a dymunol isod:

| | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| Cymwysterau | • Profiad proffesiynol perthnasol ym myd y celfyddydau. | |
| Gwybodaeth | • Angerdd dros y celfyddydau a'r gallu i reoli a gweithredu mentrau sy'n datblygu blaenoriaethau Cyngor y Celfyddydau<br>• Gwybodaeth gadarn am y celfyddydau (gan gynnwys arferion cyfoes ym myd y celfyddydau a chelfyddydau Cymru)<br>• Dealltwriaeth fanwl am faterion cydraddoldeb a sut i'w rhoi ar waith yn ymarferol yng ngwaith Cyngor y Celfyddydau<br>• Profiad o lunio polisïau cyhoeddus a rheoli prosiectau<br>• Cynefindra â materion ariannol a busnes – y gallu i asesu a dehongli materion sefydliadol | |
| Sgiliau | • Sgiliau TG a gweinyddol hyfedr<br>• Sgiliau cyfathrebu rhagorol – y gallu i fod yn eiriolwr effeithiol, hygred a darbwyllol. Meithrin a chynnal perthnasau yn fewnol ac yn allanol | |
| Profiad | • Cynefindra â dyfarnu grantiau<br>• Profiad o gynorthwyo pobl â gofynion mynediad | |
| Nodweddion | • Y gallu i reoli a chyflawni amrywiaeth eang o brosiectau a thasgau<br>• Ffocws ar ddeilliannau â'r ymroddiad i yrru tasgau nes eu cwblhau'n ymarferol<br>• Y gallu i wneud penderfyniadau o fewn fframwaith sefydlog a deall y prosesau a'r gweithdrefnau sy'n gysylltiedig â'r penderfyniadau hynny<br>• Y gallu i ofalu am eich gwaith eich hun ac i weithio heb fawr o oruchwyliaeth uniongyrchol | |

| | | |
|---|---|---|
| | • Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus<br>• Y gallu a'r parodrwydd i deithio'n gyson ar draws Cymru, y DU a/neu dramor, ac i weithio oriau anghymdeithasol pan fo angen | |
| **Y Gymraeg** | • Rhuglder yn y Gymraeg (ysgrifenedig a llafar) | |